**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**
**COUNTY HALL, RHADYR, USK, MONMOUTHSHIRE NP15 1GA**

**SCHOOL STANDARDS AND ORGANISATION (WALES) ACT 2013**

Roedd Cyngor Sir Fynwy wedi cynnal ymgynghoriad cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn wedi'i gyhoeddi i bob ymgynghorai statudol ac mae ar gael drwy Ad-drefnu Ysgolion - Monmouthshire.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2024. Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn ysgol gymunedol a Chyngor Sir Fynwy fydd yr awdurdod derbyn.

Bydd ceisiadau am leoedd yn yr ysgol newydd yn cael eu rheoli a'u penderfynu yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor.

Y nifer derbyn ar gyfer disgyblion 4-11 oed yn yr ysgol newydd yn y flwyddyn gyntaf y mae'r cynigion wedi'u rhoi ar waith yw 30. Capasiti disgyblion yr ysgol newydd fydd 60.

Bydd yr ysgol newydd yn darparu darpariaeth feithrin i'w chynnal gan Gyngor Sir Fynwy a fydd yn darparu 30 o leoedd cyfwerth ag amser llawn.

Bwriad y Cyngor yw darparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgol newydd yn unol â pholisi'r Cyngor bryd hynny. Y polisi presennol yw bod disgyblion yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol os ydynt yn bodloni'r meini prawf canlynol:

a) Eu bod yn mynychu eu hysgol cyfrwng Cymraeg agosaf neu ddalgylch a
b) Eu bod yn byw mwy na milltir a hanner o'r ysgol ar gyfer cynradd neu
c) Eu bod yn byw mwy na dwy filltir o'r ysgol ar gyfer uwchradd.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig, hynny yw erbyn 17 Gorffennaf 2023, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion a amlinellir yn yr hysbysiad hwn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at yr Uned Mynediad Ysgolion a Myfyrwyr, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA neu e-bostiwch strategicreview@monmouthshire.gov.uk

Llofnod Dyddiad: ***19eg Mehefin 2023***

Paul Matthews
Prif Weithredwr
Ar ran Cyngor Sir Fynwy

**NODYN ESBONIADOL**

***(Nid yw'r nodyn yn ffurfio rhan o'r hysbysiad ond yn cael ei gynnig fel esboniad)***

Bydd yr Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei lleoli ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow drwy ddefnyddio adeiladau presennol yr ysgol i greu dwy ysgol ar wahân. Bydd yr ysgol yn cael ei sefydlu gan ddefnyddio model twf eginblanhigion sy'n golygu yn y flwyddyn gyntaf y bydd gan yr ysgol ddisgyblion meithrin, derbyn ac o bosibl blwyddyn 1, bydd grŵp blwyddyn yn cael ei ychwanegu bob blwyddyn academaidd nes bod carfan derbyn / Blwyddyn 1 yn cyrraedd blwyddyn 6.

Er bod y Nifer Derbyn yn cael ei gyhoeddi ar 30, nid yw rhagamcanion cyfredol yn rhagweld y bydd y nifer hwn yn cael ei fodloni yn y tymor byr.

Cynigir hefyd y byddai gan yr ysgol newydd feithrinfa a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yn darparu lleoedd addysg gynnar i blant 3 a 4 oed. Byddem hefyd yn sefydlu Cylch Meithrin cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar safle'r ysgol i ddarparu gofal plant cofleidiol i blant 3 a 4 oed, yn ogystal â gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant 2 oed.